## YR ATODLEN

Rheoliad 5

### Y materion sydd i gael eu cynnwys yn yr asesiad

**1.** Yn yr Atodlen hon—

ystyr "elfen costau gofal plant o gredyd cynhwysol" ("*childcare costs element of universal credit*") yw swm a gynhwysir mewn dyfarniad o gredyd cynhwysol o dan adran 12 o Ddeddf Diwygio Lles 2012(**1**) ac a ragnodir yn Rheoliadau Credyd Cynhwysol 2013(**2**);

ystyr "elfen costau gofal plant o gredyd treth gwaith" ("*childcare costs element of working tax credit*") yw swm a gynhwysir mewn dyfarniad o gredyd treth gwaith o dan adran 12 o Ddeddf Credydau Treth 2002 ac a ragnodir yn Rheoliadau Credyd Treth Gwaith (Yr Hawl i'w Gael a'r Gyfradd Uchaf) 2002(**3**);

ystyr "gofal plant â chymorth cyflogwr" ("*employer supported childcare*") yw cynllun cymorth a ddarperir gan gyflogwr sy'n gymwys i gael ymwared rhag treth o dan adrannau 35 ac 36 o Ddeddf Cyllid 2011(**4**) ac Atodlen 8 iddi;

ystyr "gofal plant di-dreth" ("*tax free childcare*") yw'r cynllun o dan adran 1 o Ddeddf Taliadau Gofal Plant 2014(**5**);

ystyr "hyd sesiwn" ("*session length*") yw'r cyfnod hwyaf o amser y bydd darparwr gofal plant yn gofalu am blentyn mewn diwrnod;

ystyr "rhestr aros y darparwr gofal plant" ("*childcare providers waiting list*") yw'r rhestr o'r ceiswyr sy'n aros am gynnig lle gofal plant oddi wrth y darparwr gofal plant mewn cysylltiad â phlentyn.

**2.** Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i asesiad yr awdurdod lleol gynnwys mewn cysylltiad â phob math o ofal plant a bennir yn rheoliad 2(2), fanylion ynghylch—

(a) cyfanswm nifer—

(i) y lleoedd gofal plant sydd wedi eu llenwi;

(ii) y lleoedd gofal plant sy'n ofynnol;

(b) nifer y lleoedd gofal plant llawnamser a rhan-amser-

(i) sydd wedi eu llenwi;

(ii) sy'n ofynnol;

(c) nifer—

(i) y lleoedd sydd wedi eu llenwi a'r nifer sy'n ofynnol, y caniateir i'r elfen costau gofal plant o gredyd treth gwaith neu'r elfen costau gofal plant o gredyd cynhwysol gael ei defnyddio ar eu cyfer;

(ii) y lleoedd sydd wedi eu llenwi a'r nifer sy'n ofynnol, y gallai rhieni ddefnyddio gofal plant â chymorth cyflogwr neu ofal plant di-dreth ar eu cyfer;

(iii) y lleoedd sydd wedi eu llenwi a'r nifer sy'n ofynnol gan blant ag anghenion addysgol arbennig neu y mae angen gofal arbenigol arnynt oherwydd anabledd;

(iv) y lleoedd gofal plant am ddim sydd wedi eu llenwi a'r nifer sy'n ofynnol gan blant 2 flwydd oed;

(v) y lleoedd cyfnod sylfaen am ddim sydd wedi eu llenwi, y nifer sy'n ofynnol a'r nifer sydd ar gael i blant 3 a 4 blwydd oed;

---

(**1**) 2012 p. 5.
(**2**) O.S. 2013/376 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2015/1754.
(**3**) O.S. 2002/2005 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/701, O.S. 2004/1276, O.S. 2007/2479, O.S. 2010/918 ac O.S. 2013/1736.
(**4**) 2011 p. 11.
(**5**) 2014 p. 28.

(vi) y lleoedd sydd wedi eu llenwi a’r nifer sy’n ofynnol ar gyfer gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg;

(vii) y lleoedd gwag; a

(viii) y plant sydd ar restrau aros y darparwyr gofal plant;

(d) yr adegau—

(i) pan fo’r gofal plant yn ofynnol;

(ii) pan fo’r gofal plant ar gael;

(e) ystod y gwasanaethau a gynigir gan y darparwr gofal plant;

(f) ystod yr hydoedd sesiwn a gynigir gan y darparwr gofal plant;

(g) y math o ddarparwr gofal plant sy’n cynnig oriau hyblyg ar gyfer gofal plant;

(h) nifer y darparwyr gofal plant sy’n cynnig oriau hyblyg ar gyfer gofal plant;

(i) ystod oedran y plant yn y mathau o ofal plant a bennir yn rheoliad 2(2); a

(j) ystod y taliadau ar gyfer y gofal plant.

**3.** Nid yw’r manylion ym mharagraffau 2(iv) a (v) yn ofynnol mewn perthynas â darparwyr gofal plant yn y cartref.

**Dosbarthiad daearyddol**

**4.** Rhaid i’r asesiad gynnwys manylion ynghylch—

(a) dosbarthiad daearyddol pob math o ofal plant yn ardal yr awdurdod lleol; a

(b) unrhyw fylchau yn y dosbarthiad daearyddol hwnnw.

**5.** Caiff yr asesiad ystyried y gofal plant sydd ar gael y tu allan i ardal yr awdurdod lleol ond sydd ar gael i bobl sy’n byw yn yr ardal.

**Cynaliadwyedd**

**6.** Rhaid i’r asesiad gynnwys manylion unrhyw ffactorau sydd wedi effeithio ar gynaliadwyedd darparwyr gofal plant presennol yn ardal yr awdurdod lleol.

**Ffigurau a thueddiadau rhagamcanol ar gyfer y boblogaeth**

**7.** Rhaid i’r asesiad gynnwys manylion ynghylch—

(a) ffigurau poblogaeth rhagamcanol ar gyfer ardal yr awdurdod lleol; a

(b) y prif dueddiadau a ffactorau sy’n debygol o effeithio ar y ffigurau hynny.

**Dadansoddiad o’r bylchau**

**8.** Rhaid i’r asesiad gynnwys dadansoddiad o’r cyflenwad a’r galw ac unrhyw fwlch yn y cyflenwad a’r galw am ddarpariaeth gofal plant yn ardal yr awdurdod lleol, gan gynnwys yn benodol—

(a) darpariaeth gofal plant ar gyfer plant y mae eu rhieni yn gweithio oriau annodweddiadol;

(b) darpariaeth gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg; ac

(c) darpariaeth gofal plant ar gyfer categorïau iaith gwahanol.

**Crynodeb anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu**

**9.** Rhaid i'r asesiad gynnwys crynodeb o'r anghenion gofal plant nad ydynt yn cael eu diwallu yn ardal yr awdurdod lleol gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r canlynol—

(a) y mathau o ofal plant sydd ar gael;

(b) oedran y plant y mae gofal plant ar gael iddynt;

(c) fforddiadwyedd gofal plant;

(d) adegau pan fo gofal plant ar gael; ac

(e) lleoliad y gofal plant.

**Rhwystrau i ddarpariaeth gofal plant**

**10.** Rhaid i'r asesiad gynnwys manylion ynghylch—

(a) hygyrchedd darpariaeth gofal plant;

(b) y rhwystrau a brofir gan—

(i) rhieni sy'n gweithio;

(ii) rhieni sy'n ceisio gwaith neu gyfleoedd hyfforddi;

(iii) aelwydydd di-waith;

(iv) teuluoedd ar incwm isel;

(v) teuluoedd rhiant unigol;

(vi) teuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig;

(vii) teuluoedd a chanddynt blant ag anghenion addysgol arbennig, neu anabledd.

**Datblygu a hyfforddi**

**11.** Rhaid i'r asesiad gynnwys manylion ynghylch—

(a) cymwysterau gofal plant sydd gan y gweithlu eisoes;

(b) anghenion hyfforddi'r gweithlu.